Drafft ar gyfer Ymgynghoriad

Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru
Corporate Joint Committee for South West Wales



Chwefror 2025

# Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol De-orllewin Cymru

## Atodiad 3: Canlyniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council
Cyngor Sir Gâr / Carmarthenshire County Council
Cyngor Sir Penfro / Pembrokeshire County Council
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro / Pembrokeshire Coast National Park
Bannau Brycheiniog
Cyngor Abertawe / Swansea Council

**Atodiad 3 Canlyniadau Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

***Y diwydiant bysiau***

Cynhaliwyd gweithdy gyda gweithredwyr bysiau ar 4 Medi 2024. Daeth gweithredwyr masnachol, cynrychiolwyr trafnidiaeth gymunedol a swyddogion o'r awdurdod lleol i'r sesiwn hon.

**Tabl 1 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant bysiau**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| Hygyrchedd a chynhwysiant | Mae angen i'r diwydiant bysiau ddarparu ar gyfer **poblogaeth sy'n heneiddio**. Gan gynnwys rhoi ystyriaeth i gyfyngiadau corfforol, gwybyddol a synhwyraidd.<br><br>Cynnydd enfawr mewn oedolion hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol ac sy'n llai tebygol o yrru - mae mynediad at wasanaethau yn hanfodol i'r grŵp hwn. |
| | Gan fod systemau trafnidiaeth yn dibynnu fwyfwy ar blatfformau digidol (apiau galw am reid, tocynnau, ac ati), mae'n bwysig ystyried y gallai oedolion hŷn fod yn llai cyfarwydd â chyfryngau digidol. Mae darparu ffyrdd amgen, **nad ydynt yn rhai digidol** i gael mynediad at drafnidiaeth yn hanfodol. |
| | Angen **integreiddio'n well ag ysbytai a meddygfeydd** ar gyfer apwyntiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd gan leihau amseroedd aros a sicrhau bod preswylwyr sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn gallu cynllunio eu teithiau yn hyderus. |
| Blaenoriaethu bysiau | Mae angen i flaenoriaethu bysiau fod yn ystyriaeth allweddol. Mae llawer o enghreifftiau ledled Cymru o lwybrau lle mae'n rhaid ychwanegu mwy o adnoddau yn barhaus, dim ond i gynnal yr amserlenni presennol, ond i wneud teithio ar fws yn wirioneddol apelgar, mae'n rhaid iddo fod yn gyflym ac yn sicr mor gyflym â'r car (ond yn ddelfrydol yn gyflymach).<br><br>Yn gyffredinol **mae amseroedd teithio ar fysiau yn cynyddu**/mae'r cyflymderau'n gostwng - ond er mwyn apelio mae angen i amseroedd teithio gymharu'n llawer gwell gyda'r car preifat. |
| | Nid mater trefol yn unig yw amseroedd teithio gwael/angen blaenoriaethu bysiau - ceir enghreifftiau yn Aberdaugleddau, Hwlffordd a Phenrhyn Gŵyr lle mae yna fannau cyfyng allweddol. |

**Tabl 1 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant bysiau**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | Rhoddir sylw penodol i fannau problemus yn y lleoedd a ganlyn:<br>- Pontfadlen, Hwlffordd<br>- Ffordd Fabian/Pont Tawe, Abertawe<br>- Valley Way, Llansamlet<br>- Penalun. |
| | Cefnogaeth i'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i gyfeirio cyllid tuag at **flaenoriaethu bysiau ar goridorau allweddol**. |
| | Mewn rhai achosion byddai modd gwella amseroedd teithio drwy wneud **ymyriadau bach** iawn - h.y. addasiadau i oleuadau traffig. Mae angen i weithredwyr ac Awdurdodau Cynllunio Lleol weithio gyda'i gilydd i ddatrys y materion hyn. |
| | **Mae gorfodi blaenoriaeth bysiau** yn hanfodol. |
| Arosfannau bysiau | Mae llawer o'r arosfannau bysiau, yn enwedig y tu allan i'r dref, heb eu nodi. Mae hyn yn achosi anawsterau i deithwyr a gyrwyr. Mae'r wybodaeth am leoliad yr arosfannau yng nghronfa ddata Naptan wedi dyddio - e.e. cyfeiriadau at arosfannau neu dirnodau nad ydynt yno bellach. **Mae'r gronfa ddata angen ei hadolygu**/diweddaru. |
| | Angen **seilwaith arosfannau bysiau** sylfaenol fel baneri arhosfan bysiau a chyrbau uchel wrth bob arhosfan. Byddai hyn o fudd i yrwyr a chwsmeriaid gan fod yr arosfannau wedi'u nodi'n glir ac yn weladwy ar gyfer stopio/aros. |
| | Mae angen **amserlenni hawdd eu darllen**. |
| Cyfnewidfa bws/rheilffordd | Nid yw'r ddarpariaeth stopio yng ngorsaf Abertawe yn ddigonol |
| | Port Talbot – cyfle posibl i ganolbwyntio buddsoddiad yn yr hwb newydd yn hytrach na'r orsaf fysiau. |
| Hyfforddi gyrwyr | Mae **diffyg gyrwyr bysiau** yn broblem wirioneddol mewn rhai ardaloedd - gan gynnwys Sir Benfro, yn enwedig gyda'r nos ac yn yr haf. Roedd gan Gyngor Sir Penfro brosiect blaenorol i hyfforddi |

**Tabl 1 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant bysiau**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | gyrwyr bysiau, ond ni fu hyn yn llwyddiant oherwydd prinder arholwyr yn ystod y cyfnod cyllido.<br><br>Mewn ardaloedd eraill mae'r cyflenwad o yrwyr yn fwy sefydlog, ond nid oes llawer o gapasiti sbâr yn y system. |
| Trafnidiaeth gymunedol | I'r rheiny sy'n methu â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus safonol, mae gwasanaethau arbenigol fel trafnidiaeth gymunedol (**gwasanaethau o ddrws i ddrws neu o gyrb-i-gyrb**) yn hanfodol. Mae angen i'r gwasanaethau hyn fod yn ddibynadwy, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy.<br><br>Mae trafnidiaeth gymunedol yn chwarae rôl hanfodol y tu allan i amserlen bysiau rheolaidd - e.e. ar gyfer apwyntiadau meddygol y tu allan i oriau. |
| | Mae angen annog a chefnogi darparwyr trafnidiaeth gymunedol presennol i ddatblygu gwasanaethau **trafnidiaeth gymunedol mwy pwrpasol ac integredig** fel ateb mewn ardaloedd gwledig a threfol, nad ydynt yn cael eu hystyried yn llwybrau hyfyw. |
| | Mae trafnidiaeth gymunedol yn arbennig o bwysig i bobl â chadeiriau olwyn ac ati, yn enwedig o ystyried **diffyg tacsis sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn** (neu lle mae tacsis hygyrch fel arall yn darparu trafnidiaeth ysgol). |
| | Mae trafnidiaeth gymunedol yn troi pobl i ffwrdd oherwydd diffyg gyrwyr/cerbydau. |
| Iechyd | Mae'n bwysig iawn bod gwasanaethau bysiau yn ymateb i'r ffordd newidiol y mae'r **gwasanaeth iechyd** yn cael ei ddarparu. |
| Addysg | Byddai cael ysgolion i ddechrau/gorffen ar amseroedd gwahanol yn gwneud gwahaniaeth enfawr i'r diwydiant bysiau. |
| Ardaloedd gwledig | Mae gan rannau helaeth o'r rhanbarth wasanaethau bws gwael iawn/dim gwasanaethau bws. |
| Twristiaeth | Mae twristiaeth yn rhoi galw tymhorol penodol ar y rhwydwaith bysiau. |
| | Mae parcio a theithio i Ddinbych-y-pysgod yn bwysig. |

**Tabl 1 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant bysiau**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | Mae'r gyfnewidfa fysiau / rheilffordd yn Nhyddewi yn bwysig. |
| Tanwydd amgen | Mae gweithredwyr yn gweithio ar faint elw tynn iawn - ar hyn o bryd mae'r gost o brynu cerbydau trydan yn afresymol. Dim ond gydag **arian cyfatebol** y byddai'n bosibl. |
| | Mae rhai llwybrau bws **yn rhy hir ar gyfer cerbydau trydan**. Gall rhai llwybrau fod yn fwy addas ar gyfer hydrogen. |
| Hyrwyddo | Mae angen gwneud mwy i hyrwyddo teithio ar fysiau - **mae negeseuon a hyrwyddo** yn aml yn cael eu colli ar lefel ranbarthol. |
| Targed | Yn awyddus i weld targedau i helpu i fesur llwyddiant. |

**Y diwydiant rheilffyrdd**

Cynhaliwyd gweithdy gyda gweithredwyr trenau ar 4 Medi 2024. Yn bresennol yn y sesiwn hon yr oedd Network Rail, First Great Western, Grand Union Trains, y Fforwm Rheilffyrdd, SPRAG, Fforwm Trafnidiaeth Gogledd Sir Benfro a Grŵp Defnyddwyr Rheilffordd Sir Benfro a swyddogion o'r awdurdodau lleol. Roedd cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda hefyd yn bresennol ond caiff yr adborth hwn ei gyfuno ag adborth y gweithdy iechyd yn yr adran nesaf.

Mae Tabl 2 yn crynhoi'r holl adborth a dderbyniwyd; fodd bynnag, dylid nodi bod agweddau sy'n gysylltiedig â'r rhwydwaith rheilffyrdd yn uniongyrchol y tu allan i gwmpas y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

**Tabl 2 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant rheilffyrdd**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| Llywodraeth u | Pryderon / ansicrwydd ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni gan Trafnidiaeth Cymru. Yn galw ar Trafnidiaeth Cymru i ymgysylltu mwy â gweithredwyr eraill. |
| | Pryder bod Great British Railways yn canolbwyntio ar Loegr i raddau helaeth iawn ac na fydd hyn yn gallu ymateb i'r galw rhanbarthol. |
| | Mae'n bwysig cydnabod cysylltiadau trawsffiniol – mae dyfodol y diwydiant yn drawsffiniol. |
| | Mae angen i Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol y De-orllewin hefyd gysylltu â Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru a De-ddwyrain Cymru gan nad yw trafnidiaeth yn amlwg yn gyfyngedig o fewn rhanbarthau unigol. Er enghraifft, mae rhanbarth y Bwrdd Iechyd yn cynnwys Ceredigion gyda nifer fawr o gleifion a staff yn teithio rhwng dau ranbarth sydd ill dau â'u cynllun trafnidiaeth rhanbarthol eu hunain. Mae'r un peth yn wir am deithiau dwyrain-gorllewin y tu hwnt i Gastell-nedd Port Talbot. |
| | Yr enghreifftiau gorau o well darpariaeth gwasanaethau yw lle mae Network Rail yn cael ei gefnogi gan awdurdodau lleol. Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan hanfodol wrth gludo teithwyr i'r rhwydwaith rheilffyrdd. |
| Mynediad i orsafoedd (gan | Mae parcio yn cuddio'r galw am deithio trwy reilffordd ar draws y rhanbarth ac felly hefyd y rhwydwaith bysiau. Mae'r meysydd parcio yn gyfyngedig mewn rhai gorsafoedd - e.e. Sir Gaerfyrddin. |

**Tabl 2 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y diwydiant rheilffyrdd**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| gynnwys parcio) | Rhaid gallu parcio os am annog pobl i ddefnyddio'r trên (yn hytrach na'r draffordd) ar gyfer teithiau hirach. |
| | Parcio wrth yr orsaf ar gyfer codi a gollwng. |
| | Mae'r pellter o orsaf reilffordd Abertawe i'r orsaf fysiau yn broblem. |
| | Mae llwybr cerdded a beicio diogel i orsafoedd rheilffordd yn bwysig iawn. |
| Gwasanaethau | Cyswllt rheilffordd i Heathrow. |
| | Gwasanaethau sy'n cysylltu'n well ag ardaloedd twristaidd fel bod pobl sy'n dod i'r rhanbarth yn dewis dod ar y trên. |
| Dibynadwyedd | Mae canslo, oedi a diffyg gwybodaeth yn atal pobl rhag defnyddio'r trên, ac wedyn mae'n anodd iawn eu cael yn ôl. |
| Gofal Iechyd | Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn ystyried Sanclêr a Hendy-gwyn ar Daf fel lleoliadau posibl ar gyfer cyfleuster gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd. Os dewisir lleoliad Sanclêr, byddant yn pwyso am orsaf reilffordd newydd yn Sanclêr (deallir bod hyn wedi'i ohirio gan Weinidogion Cymru). |

**Sector gofal iechyd**

Cynhaliwyd gweithdy gyda chynrychiolwyr iechyd y cyhoedd ar 5 Medi ac roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe yn bresennol. Yn ogystal, fel y nodwyd uchod, daeth cynrychiolydd o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i'r gweithdy rheilffordd.

Mae Tabl 3 yn crynhoi'r holl adborth a dderbyniwyd.

**Tabl 3 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y sector gofal iechyd**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau | Mae'r gwasanaeth iechyd yn newid y modd y mae'n darparu gwasanaethau.<br>Mae cyfleuster gofal brys a gofal wedi'i gynllunio newydd ar y gweill.<br>Mae canolfannau iechyd a llesiant wedi'u cynllunio ar gyfer canol trefi.<br>Pencadlys newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yng Nghaerfyrddin.<br>Mae angen i drafnidiaeth ymateb i'r newidiadau hyn. |
| | Mae'r cyfleusterau presennol yn gweld pwysau cynyddol ar drafnidiaeth a mynediad. |
| | Gorgyffwrdd â'r diwydiant bysiau - gan fod modd defnyddio bysiau i ryddhau cleifion. |
| Cynhyrchu teithiau | Mae'r gwasanaeth iechyd yn cynhyrchu llawer o deithiau ond ychydig iawn o gleifion neu staff sydd ar hyn o bryd yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus neu trwy ddulliau teithio llesol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn awyddus i annog newid mewn dulliau teithio. |
| | Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus gynnig dewis arall ymarferol yn hytrach na'r car er mwyn i weithwyr gofal iechyd allu cymudo. |
| Tocynnau | Gostyngiadau trafnidiaeth gyhoeddus i staff gofal iechyd? |
| Mynediad | Ysbyty Cyffredinol Glangwili – mae'r tagfeydd yng Nghaerfyrddin ac ar y ffordd sy'n arwain at yr ysbyty yn effeithio ar gerbydau'r gwasanaethau brys.<br>Ceir problemau tebyg yn Ysbyty Tywysog Phillip. |

**Tabl 3 – Materion a godwyd gan randdeiliaid y sector gofal iechyd**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | Mae llwybrau i Ysbyty Treforys yn bwysig gan fod cleifion yn aml y cael eu trosglwyddo i Dreforys. |
| | Mae angen llwybrau cerdded a beicio mwy ymarferol, diogel i ysbytai a chyfleusterau gofal iechyd. Ond dylid cymhwyso'r hierarchaeth gynaliadwy mewn ffordd gytbwys. |
| Cerbydau Trydan | Mae'r gwasanaeth iechyd yn bwriadu trosglwyddo'r fflyd i gerbydau trydan. |
| Trafnidiaeth Gymunedol | Gallai gwell gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol gymryd pwysau oddi ar y gwasanaethau ambiwlans. |
| | Angen gwasanaeth canolog ar gyfer trafnidiaeth gymunedol.  Nid yw pobl fel arfer yn gwybod ble i fynd i gynllunio taith trafnidiaeth gymunedol neu i gael cyngor. |
| Ymgysylltu | Mae gan Bartneriaethau Rhanbarthol rôl gynyddol - mae'n bwysig ymgysylltu. |

## Y sector trafnidiaeth addysg

Cynhaliwyd gweithdy gyda swyddogion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth addysg a chynrychiolwyr o Brifysgol Cymru a Phrifysgol Abertawe ar 12 Medi

Mae Tabl 4 yn crynhoi'r holl adborth a dderbyniwyd.

**Tabl 4 – Materion a godwyd gan randdeiliaid trafnidiaeth addysg**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| Lefel y traffig | Mae teithio i'r ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at draffig - hyd at 15% o draffig ychwanegol ar ddiwrnodau ysgol. |
| Lleoliadau | Mae'n annhebygol y bydd llawer o ysgolion newydd dros gyfnod y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ond mae yna ddatblygiadau a gwelliannau parhaus. |
| | Tuedd gynyddol i ysgolion gael eu hintegreiddio â darpariaeth hamdden - mae hyn yn codi materion/gofynion trafnidiaeth penodol. |
| | Mae angen lleoli ysgolion newydd lle gellir eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus (nid mewn ardaloedd gwledig). Fodd bynnag, yng Nghastell-nedd Port Talbot yn enwedig ceir diffyg safleoedd mewn ardaloedd trefol. |
| | Mae'n bwysig cydnabod bod trafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yn aml yn drawsffiniol. |
| | Mae teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn fater penodol a gall gynnwys teithio'n bellach. |
| | Mae'r cwricwlwm amgen yn golygu bod angen i fyfyrwyr deithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol. Cyfrifoldeb yr ysgol yw hyn ar hyn o bryd ond byddai'n elwa o ryw fath o system gydlynu neu froceriaeth. |
| | Gall teithio rhwng campysau prifysgol fod yn anodd a cheir llawer o lwybrau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus – er enghraifft, rhwng campysau Abertawe a Chastell-nedd a rhwng Castell-nedd a Threforys (ar gyfer myfyrwyr meddygol). |

**Tabl 4 – Materion a godwyd gan randdeiliaid trafnidiaeth addysg**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | Mae gan fyfyrwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ofynion trafnidiaeth penodol ac mae rhai yn teithio am bellteroedd hir. |
| Hyfforddiant teithio | Sgil bywyd pwysig, yn enwedig mewn ardaloedd fel Castell-nedd Port Talbot lle mae mwyafrif y myfyrwyr ôl-16 yn teithio i gampysau coleg ac angen teithio'n annibynnol.<br>Mae hyfforddiant teithio yn helpu i sefydlu dewisiadau teithio cynaliadwy ar oedran ifanc a gall hefyd ddylanwadu ar nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na hyfforddiant.<br>Ar hyn o bryd mae cyllid ar gael ar gyfer myfyrwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn unig. |
| | Mae galw arbennig am hyfforddiant i bobl ag awtistiaeth. |
| | Cyfle i hyfforddi hyrwyddwyr teithio. |
| | Angen gwybodaeth teithio syml iawn – fel mapiau ar arddull y tiwb. |
| Cerbydau / gyrwyr | Mater mawr yn ymwneud ag argaeledd cerbydau 16+ sedd a gyrwyr. |
| Amseru | Mae amseriadau ysgolion yn creu heriau - byddai cychwyn fesul un ar gyfer safleoedd cyfagos yn ddefnyddiol. |
| Parthau ysgolion | Mae Abertawe yn gwneud cais am bwerau i orfodi cyfyngiadau ger ysgolion gan ddefnyddio camerâu monitro. |
| | Mae strydoedd ysgol yn cynnig cyfle i wella'r amgylchedd ar unwaith. |
| | Mae angen datblygu strydoedd ysgol yn unol â Chynlluniau Teithio Ysgol (sy'n dod yn ofyniad pwysig). |
| Staff | Mae hefyd yn bwysig annog staff i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy. |
| Datgarboneiddio | Her go iawn i fysiau ysgol - mae llwybrau ysgol yn tueddu i gael eu gwasanaethu gan gerbydau hŷn a gall llwybrau fod yn hir iawn |

**Tabl 4 – Materion a godwyd gan randdeiliaid trafnidiaeth addysg**

| Pwnc | Mater |
|---|---|
| | (ddim yn addas i gerbydau trydan). O bosibl angen edrych ar ôl-osod bysiau ysgol i safonau allyriadau glanach. |

## Cyfarfodydd eraill

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd un-i-un eraill hefyd. Mae trosolwg o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn y sesiynau hyn i'w weld yn Nhabl 5

**Tabl 5 – Materion a godwyd gan randdeiliaid eraill**

| Pwnc | Fersiwn |
|---|---|
| Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru | Pryderon ynghylch diffyg llwybrau ac amwynderau addas ar gyfer cerbydau nwyddau trwm. |
| | Wedi darparu cyd-destun ynghylch gwelliannau arfaethedig ar y rhwydwaith cefnffyrdd ac effeithiau posibl ar y rhwydwaith ehangach. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Trafodaeth o amgylch y materion a godwyd yn y ymateb ysgrifenedig a gyflwynwyd yn flaenorol sy'n ymwneud â phwysigrwydd mynediad ar gyfer twristiaeth. |
| Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg | Yn ddiweddar cynhaliodd gyfres o weithdai gyda phobl ag anawsterau dysgu i drafod eu profiadau o drafnidiaeth (defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus yn bennaf). Bydd tystiolaeth a gesglir o'r broses hon yn cael ei rhannu gyda'r tîm Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac mae'n berthnasol iawn i'r fframwaith polisi<br><br>Diffyg gwybodaeth amserlen hygyrch, hawdd ei darllen yw eu pryder mwyaf - bydd yn bwysig iawn adlewyrchu hyn yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.<br><br>Roedd ganddynt hefyd pryderon sylweddol ynghylch cael eu trin ag urddas a pharch.<br><br>Mae'r Bartneriaeth wrthi'n gweithio gyda defnyddwyr i ddatblygu Siarter Teithio. Mae'n bosibl bod hyn yn enghraifft o arfer da y gellid tynnu sylw ati yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. |

## Tabl 5 – Materion a godwyd gan randdeiliaid eraill

| Pwnc | Fersiwn |
|---|---|
| | Mae hyfforddiant teithio yn bwysig iawn o ran rhoi sgiliau bywyd a hyder i bobl er mwyn iddynt ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Angen systemau gwell i gyfeirio pobl at gefnogaeth a help gyda thrafnidiaeth. Er enghraifft, i ofyn am gymorth ar drenau neu i ddod o hyd i amserlenni mewn fformat arall.<br><br>Mae'n bwysig codi ymwybyddiaeth o'r problemau y mae pobl ag anawsterau dysgu yn eu hwynebu wrth ddefnyddio ein systemau trafnidiaeth. |
| Bargen Ddinesig Bae Abertawe | Mae Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn fuddsoddiad o hyd at £1.3 biliwn mewn portffolio o brosiectau a rhaglenni mawr ledled Dinas-ranbarth Bae Abertawe, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Mae rhaglenni a phrosiectau'r Fargen Ddinesig yn seiliedig ar themâu allweddol gan gynnwys cyflymu'r economi, gwyddor bywyd a llesiant, ynni, gweithgynhyrchu clyfar a digidol. Nid yw buddsoddiad y Fargen Ddinesig yn cwmpasu trafnidiaeth, ond mae llawer o'r prosiectau yn effeithio ar drafnidiaeth neu'n gofyn am drafnidiaeth ac mae sicrhau bod pobl o'r tu allan i'r rhanbarth yn gallu cael mynediad i'r ardal yn bwysig. Diddordeb mewn sut y gall y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gefnogi nodau'r Fargen Ddinesig. |
| Porthladd Rhydd Celtaidd | Bydd y Porthladd Rhydd yn cefnogi cyfleusterau gweithgynhyrchu newydd a gwaith uwchraddio mawr i seilwaith porthladdoedd i gefnogi'r gwaith o gyflwyno ffermydd gwynt arnofiol ar y môr (FLOW) yn y Môr Celtaidd.<br><br>Bydd hefyd yn darparu'r asgwrn cefn ar gyfer dyfodol glanach yn seiliedig ar yr economi hydrogen, tanwydd cynaliadwy, dal a storio carbon, dur glanach a logisteg carbon isel.<br><br>Mae'r cyfle am Borthladd Rhydd yn dod â photensial ar gyfer newid ac adfywio trawsnewidiol sylweddol. Mae angen i hyn gael ei gefnogi'n briodol gan rwydwaith trafnidiaeth effeithiol ac effeithlon. Mae gwelliannau i'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gwbl hanfodol ar gyfer llwyddiant y Porthladd Rhydd – i gefnogi cam adeiladu'r prosiect yn ogystal â'r economi hirdymor. Dylai'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol geisio cefnogi'r Porthladd Rhydd. |